

JONES, EDMUND (1702 - 1793), Pontypwl, pregethwr Annibynnol ac awdur

Enw: Edmund Jones
Dyddiad geni: 1702
Dyddiad marw: 1793
Priod: Mary Jones
Rhiant: Catherine Lewis
Rhiant: John Lewis
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: pregethwr Annibynnol ac awdur
Maes gweithgaredd: Crefydd; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu
Awdur: Arthur Gray-Jones

Ganwyd ym mhlwyf Aberystroth, sir Fynwy, 1 Ebrill 1702, mab John a Catherine Lewis, Penllwyn, tyddyn yn ymyl gorsaf ffordd haearn Nantyglo (yn awr), y rhieni yn aelodau yn eglwys Annibynnol Penmaen. Cafodd ychydig addysg o dan Howel Prosser, curad Aberystroth. Dechreuodd bregethu yn 1722 bu'n cynorthwyo gweinidog Penmaen, a chafodd ei ordeinio yno yn 1734. Yn 1727 a 1728 bu dadlau cyhoeddus poeth a ffyrnig rhyngddo ef a **Miles Harri** ar fater bedydd oedolion - dadlau a gymerth le yn Blaenau Gwent (ym mhlwyf Aberystroth) lle yr oedd achos cryf gan y Bedyddwyr. Bu Edmund Jones yn gofalu am y gangen o eglwys Penmaen a gyfarfyddai yn fferm Ty'n llwyn yn Ebwy Fawr, ac yr oedd yn gobeithio y câi ddilyn bugail Penmaen, eithr **Philip David** a ddewiswyd (1740). Wedi ei siomi yn hynny o beth, symudodd Edmund Jones ym mis Gorffennaf 1740 i Bontypwl ac ymsefydlodd yn y Transh, lle yr adeiladodd dy wrdd Annibynnol a pharhau i ofalu am y cynulliad yn Ebwy Fawr. Yn ôl yr hyn a ddywedodd George Whitefield, gwerthodd ei lyfrau am £15 er mwyn medru gorffen yr adeilad.

Yr oedd yn Galfin cryf ac yn efengyllydd selog, ac efe a fu'n foddion i ddod a **Howel Harris** i bregethu am y tro cyntaf yn sir Fynwy - ym misoedd Mawrth ac Ebrill 1738 yn Ebwy Fawr (yn Tyllwyn, y mae'n debyg); ar yr amgylchiad hwnnw y dychwelwyd y rhai a ddaeth wedi hynny yn arweinwyr Methodistiaeth yn sir Fynwy, yn enwedig **John Powell** a **M. J. Lewis**.

Er ei fod yn teimlo'n gyfeillgar tuag at **Harris** ofnai Edmund Jones y byddai i gynnydd Methodistiaeth ymysg Anghydfurfwyr beri i lawer ohonynt gael eu tynnu i'r Eglwys Sefydledig fel y gobeithiai **Harris** - mynnai hwnnw ddiwygio'r Eglwys o'r tu mewn iddi ei hun. O'r herwydd bu Edmund Jones yn awgrymu i rai seiaidau, e.e. Defynnog a Chastellnedd, eu ffurfio eu hunain yn eglwysi Annibynnol, ac arweiniodd hyn i anghydealltwriaeth rhwng Jones a **Harris**, eithr yr oedd Calfiniaeth gref y ddau yn ddolen gydiol rhyngddynt a barhaodd hyd adeg marw **Harris**. Yr oedd duwioldeb Jones a'i sêl dros efengyleiddio yn cael eu hedmygu gan Whitefield a'r arglwyddes Huntingdon ac yr oedd iddo groeso bob amser i goleg yr arglwyddes yn Nhrefecca.

Yr oedd Edmund Jones yn briod ond yn ddi-blant; bu ei wraig, Mary, a aned yn 1696, farw 1 Awst 1770. Yr oedd eu bywyd priodasol yn un hapus iawn, eithr nid oes sail i'r traddodiad i Whitefield benderfynu priodi wedi iddo weled pa mor hapus yr oedd y ddeuddyn. Er nad oedd Jones yn rhy dda ei fyd, yr oedd yn hael ac yn tueddu i fod yn wastraffus. Gwyddys iddo roddi ei gôt uchaf ar un amgylchiad, a'i gryd ar amgylchiad arall, i bobl dlotach nag efe ei hun a gyfarfu ar ei deithiau.

Trafaeliodd lawer i bregethu yng Nghymru a Lloegr - 400 milltir yn 1782 yng Ngogledd Cymru gan bregethu ddwywaith y dydd; hyd yn oed yn 1789, pan oedd yn 87, pregethodd 405 o weithiau. Nid oedd yn bregethwr poblogaidd, fodd bynnag. Ar wahân i gyfrolau o bregethau fe'i cofir ef fel awdur *A geographical, historical, and religious account of the parish of Aberystroth*, 1779, gwaith y mae'n rhaid ei ddarllen fwy nag unwaith er mwyn medru amgyffred ystyr a phwysigrwydd llawer o'r ffeithiau a roddir neu y cyfeirir atynt ynddo, a *A Relation of Apparitions of Spirits in the Principality of Wales*, 1780, casgliad diddorol o len gwerin. Daethpwyd i'w alw 'Yr Hen Broffwyd' ar gyfrif ei broffwydoliaethau y gwiredwyd rhai ohonynt. Y mae ei ddyddiaduron yng nghadw yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru - bu agos iddynt â chael eu defnyddio gan siopwr ym Mhontypwl ychydig wedi marw Jones fel papurach pacio nwyddau.

Yr oedd Edmund Jones yn berchen personoliaeth ddeublyg - ar y naill law yn pregethu'r efengyl yn ddiogel ac yn sefydlu eglwysi newyddion, yn efengyllydd selog a Chalfin cadarn, ac ar y llaw arall yn ofergoelus ac yn cael ei frawychu gan arwyddion pethau drwg i ddyfod. Yr oedd yn wastad yn brysur yn cronicleo datblygiadau a newyddion ynglyn â chrefydd, a chyfeirir ato'n fynych gan ysgrifenywyr hanes y 18fed ganrif yng Nghymru. Ceir ysgrif ragorol arno yn *Yr Adolygydd*, 1850, gan **Evan Jones** ('Ieuan Gwynedd'), a ailargraffwyd yng ngwaith cyflawn y gwr hwnnw.

Awdur

Arthur Gray-Jones

Ffynonellau

LIGC: NLW MSS 7021-7030A: *Diaries of Edmund Jones, Pontypool*, yn ymestyn am rai blynyddoedd o 1729 hyd 1789)

Ilythyrau a dyddiaduron Howel Harris yn LI.G.C.

Thomas Rees, *History of Protestant Nonconformity in Wales from its rise in 1633 to the present time* (London 1883), 152-4, 367-70, 430-5

Hanes Eglwysi Annibynnol Cymru, 67-71

Memoirs of the life of the Rev. G. Whitefield & Faithfully selected from his original papers, journals, and letters (Llundain 1772), 260

Enwogion y Ffydd (1880), iii

'Spiritual Botany,' 1771, cân lawysgrif gan Edmund Jones yn llyfrgell gyhoeddus Casnewydd-ar-Wysg

Seren Gomer, 1825, 1851

Y Cofiadur, 1825

Darllen Pellach

Edmund Jones, Adam Coward (gol.), *A Spiritual Botany* (Newport 2017)

Adam Coward, *Edmund Jones - Total Legend*, blog 'Rambles and Studies in Welsh History' (cyrchwyd Ebrill 2020)

Adam Coward, *What the Heck is a 'Spiritual Botany'?*, blog 'Rambles and Studies in Welsh History' (cyrchwyd Ebrill 2020)

Adam Coward, 'Spiritual Journeys: "Purposeful Travel" and the Writings of the Reverend Edmund Jones (1702-1793)', *Studies in Travel Writing*, Cyf.22, rhif 3, September 2018, 254-73

Adam Coward, 'The Life and Times of the "Old Prophet": Saint-like Attributes of the Rev Edmund Jones (1702-1793)', yn Madeline Gray (gol.), *Rewriting Holiness: Reconfiguring Vitae, Re-signifying Cults* (London 2017)

Adam Coward, 'Maintaining the "Ancient British Opinions of Spirits"?: The "Welshness" of Edmund Jones "Yr Hen Broffwyd" (1702-1793)', *Cylchgrawn Hanes Cymru*, Cyf.26, rhif 4, Rhagfyr 2013, tt.535-59

Adam Coward, 'Edmund Jones and the Pwcca'r Trwyn', *Folk-lore*, Cyf.126, rhif 2, Gorffennaf 2015, tt.177-95

Carol James, *Edmund Jones Yr Hen Broffwyd (1702-1793): Gweinidog, Hanesydd, Ysbrydegdd*, PhD, The Open University, 2002

Gweithiau

Edmund Jones, *Samson's hair: an eminent representation of the Church of God in two parts* (Trefeca 1777)

Edmund Jones, *A geographical, historical and religious account of the parish of Aberystruth in the county of Monmouth to which are added memoirs of several persons of note who lived in the said parish* (Trefeca 1779)

Edmund Jones, *Two sermons* (Trevecka 1781)

Edmund Jones, *Dwy bregeth* (Trevecka 1782)

Edmund Jones, *Two sermons* (Trevecka 1776)

Dolenni Ychwanegol

VIAF: 306131354

Wikidata: Q18671020

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawffraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/>

PDF Argraffu Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.



Arddull APA



Gray-Jones, A., (1953). JONES, EDMUND (1702 - 1793), Pontypwl, pregethwr Annibynnol ac awdur. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 20 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-JONE-EDM-1702>

Copïo'r

Preifatrwydd a Chwcis
Hawffraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LLGC
NLW

LLYFRGELL
THE NATION



Yn ddiwydian
Llywodraeth Cymru
Supported by
Welsh Government